# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
# Asesiad Anghenion Strategaeth Toiledau Lleol
# Adroddiad Ymgynghori

## Cyflwyniad

O dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, mae dyletswydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer y fwrdeistref sirol erbyn 31 Mai 2019. Rhaid i'r strategaeth gynnwys cynllun i ddangos sut bydd yr anghenion a welwyd yn cael eu hateb.

Nid oes rhaid i'r Cyngor ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus eu hunain ond mae angen iddynt gymryd golwg strategol ar sut mae modd darparu cyfleusterau a'r mynediad atynt ar gyfer ein poblogaeth leol. Y cam cyntaf wrth ddatblygu'r Strategaeth Toiledau Lleol oedd asesu beth oedd angen y gymuned am doiledau, yn cynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau *changing places* i bobl gydag anabledd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau arolwg a ddigwyddodd fel rhan o'r broses o asesu anghenion.

Bydd canlyniad yr arolwg hwn, ynghyd â data arall, yn cael ei gasglu at ei gilydd i ffurfio Asesiad o Angen. Bydd yr Asesiad hwnnw'n dangos beth yw'r ddarpariaeth bresennol, yr angen ar yr adeg honno ac i'r dyfodol a'r bylchau yn y ddarpariaeth fydd yn cael eu hystyried wrth i'r Cyngor ddatblygu drafft o'i Strategaeth Toiledau Lleol .

Yn union ar ôl llunio'r strategaeth ddrafft, bydd preswylwyr a rhanddeiliad yn cael cyfle i roi eu barn yn ystod cyfnod ymgynghori o 12 wythnos rhwng Rhagfyr 2018 a Chwefror 2019.

## Dull

Fe ymgynghorwyd gyda phreswylwyr, ymwelwyr a rhanddeiliaid o **3 Medi hyd 28 Medi 2018**. Yn ystod y cyfnod hwn, fe ddefnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i annog a galluogi pob sector o'r gymuned i roi eu barn.

### Arolwg

Cafodd yr holiadur ei ddylunio i geisio barn preswylwyr, rhanddeiliaid ac ymwelwyr ar y ddarpariaeth a'r angen ar yr adeg honno. Roedd yr holiadur yn cynnwys canol trefi a phentrefi, atyniadau a pharciau ar draws y fwrdeistref sirol.

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn ymateb ddweud lle'r oedd cyfleusterau da a gwael yn y mannau lle byddent hwy'n ymweld fwyaf aml. Mae copi o'r arolwg i'w weld yn **Ychwanegiad 1**.

### Ymgysylltu

Roedd y ffyrdd allweddol o ymgysylltu'n cynnwys:

- Ar lein – trwy gyfrwng gwefan CBSC, cyfryngau cymdeithasol (yn cynnwys Facebook a Twitter) ac ar wefannau sefydliadau sy'n bartneriaid i'r Cyngor.

- Hysbysiadau a gohebiaeth trwy E-bost
- Rhifyn Medi 2018 o daflen newyddion y Cyngor "Newsline" sy'n cael ei ddanfon i bob aelwyd yn y fwrdeistref
- Wyneb yn wyneb – trafodaeth yn y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol, Fforwm Sector Gwirfoddol, Fforwm Ieuenctid Caerffili a Fforwm Mynediad Caerffili.
- Holiaduron ar bapur – gofynnwyd am rheiny gan grwpiau a phreswylwyr.

Mae cynllun manwl ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid yn **Ychwanegiad 2.**

### Cyfryngau Cymdeithasol

Cafodd yr ymgynghori ei hyrwyddo trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, gan gyrraedd 11,753 o unigolion trwy Twitter a 6,907 trwy Facebook. Mae sylwadau a gafwyd trwy Facebook wedi'u cynnwys yn **Ychwanegiad 3**.


## Canfyddiadau'r Arolwg

Cafwyd cyfanswm o 357 o ymatebion ac mae'r rheiny wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad. Lle mae nifer yr ymatebwyr i gwestiwn penodol yn is na'r ffigwr hwn, mae hynny'n cael ei nodi mewn cromfachau ym mhennawd y cwestiwn perthnasol.

### Proffil o'r Ymatebwyr


Mae proffil o'r ymatebwyr yn rhoi cefndir ar gyfer dadansoddiad o'r ymatebion.

Fel gellir gweld o'r graff, dywedodd y gyfran fwyaf o'r ymatebwyr (94%) eu bod yn preswylio yn y fwrdeistref sirol. Roedd 3% yn ymwelwyr. (Noder: gallai pobl roi mwy nag un ymateb, felly nid yw'r cyfanswm yn cyrraedd 100%).



***Proffil oed (n=344)***

I'r rhai wnaeth gwblhau'r cwestiwn hwn, roedd ymateb da ar draws y categorïau oed, fel sydd i'w weld yn y siart, gyda 76% o'r cyfanswm ymatebion yn dod oddi wrth bobl 36 mlwydd oed neu hŷn:




***Rhyw (n=334)***

Roedd 66% o'r ymatebwyr wnaeth gwblhau'r cwestiwn hwn yn fenyw, 29% yn wryw, 1% yn disgrifio'u rhyw fel 'Trans' a'r 3% oedd yn weddill yn dewis peidio dweud.

***Anabledd, salwch tymor hir neu broblem iechyd (n=341)***

Dywedodd 21% o'r ymatebwyr wnaeth gwblhau'r cwestiwn hwn bod ganddynt anabledd, a 24% arall bod ganddynt salwch tymor hir neu broblem iechyd.

***Ethnigrwydd (n=329)***

Dywedodd 93% o'r ymatebwyr wnaeth gwblhau'r cwestiwn hwn mai Gwyn oedd eu hethnigrwydd, a dewisodd 6% i beidio dweud. Roedd gweddill yr ymatebwyr yn naill ai Asiaidd neu Ddu, Affricanaidd/Caribïaidd.

***Crefydd neu gred (n=331)***

Dywedodd 44% o'r ymatebwyr wnaeth gwblhau'r cwestiwn hwn nad oedd ganddynt ddim crefydd, 44% eu bod yn Gristnogion a dewisodd 9% beidio dweud. Dywedodd y gweddill bod eu crefydd neu gred yn naill ai Fwdistiaeth, Iddewig, neu Fwslimaidd.


***Tueddfryd rhywiol (n=319)***

Dywedodd 81% o'r ymatebwyr wnaeth gwblhau'r cwestiwn hwn eu bod yn heterorywiol neu'n 'straight'. Dywedodd 4% eu bod yn ddynion hoyw, 1% eu bod yn ferched hoyw/lesbiaid a 4% eu bod yn ddeurywiol. Roedd 11% yn dewis peidio dweud beth oedd eu tueddfryd rhywiol.

Dywedodd nifer fechan o’r ymatebwyr mai ‘pansexual’ oedd eu tueddfryd rhywiol, yn y categori arall.

***Math o aelwyd (n=332)***

Mae’r siart yn dangos yr ymatebion roddwyd i’r cwestiwn hwn:




Fel gellir gweld yn y siart yma, daeth y nifer mwyaf o ymatebion oddi wrth bobl yn byw mewn aelwyd fel pâr priod neu’n cydfyw, wedyn aelwyd o bâr priod/cydfyw gyda phlant dibynnol, ac ar ôl hynny roedd aelwydydd o un person.

***Sgiliau iaith Gymraeg (n=328)***


Dywedodd 70% o’r ymatebwyr wnaeth gwblhau’r cwestiwn hwn nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg. Roedd y gyfran ddywedodd bod ganddynt rai sgiliau iaith Gymraeg yn amrywio o 10% ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg i 16% ddwedodd eu bod yn deall Cymraeg llafar. Dywedodd 9% bod eu bod yn dymuno peidio ateb y cwestiwn hwn.

***Prif iaith (n=332)***

Dywedodd 94% o’r ymatebwyr wnaeth gwblhau’r cwestiwn hwn mai eu prif iaith oedd Saesneg, 2% mai eu prif iaith oedd Cymraeg, a dewisodd 3% beidio ateb y cwestiwn. Dywedodd dau o’r ymatebwyr mai eu prif iaith oedd Sbaeneg.


***Statws cyflogaeth (n=336)***

Mae’r siart yn rhoi crynodeb o’r ymatebion i’r cwestiwn hwn. Fel gellir gweld o’r siart, y categorïau mwyaf ar gyfer statws cyflogaeth oedd ymatebwyr mewn gwaith llawn amser a phobl oedd wedi ymddeol.




## Canol Trefi a Phentrefi

Gofynnwyd i ymatebwyr ddweud pa drefi neu bentrefi byddent yn ymweld â hwy amlaf yn y fwrdeistref sirol. Fe atebodd 276 o bobl y cwestiwn hwn ac mae'r siart isod yn crynhoi nifer yr ymatebion i bob tref a phentref oedd â chyfanswm o 5 neu fwy o ymatebion.



Fel gellir gweld o’r siart, y canol tref yr ymwelwyd â hi gan y nifer mwyaf o ymatebwyr oedd Caerffili, a’r Coed Duon yn agos at y nifer hwnnw.

Bydd yr adran hon o’r adroddiad yn rhoi dadansoddiad o’r canlyniadau i’r canol trefi a phentrefi unigol y tynnwyd sylw atynt yn gynharach. Fodd bynnag, dylid nodi bod y nifer fechan o ymatebion dilys i bob cwestiwn unigol yn golygu y dylid bod yn wyliadwrus wrth ddehongli’r canlyniadau, gan fod yr ymatebion yn annhebyg o fod yn cynrychioli’r boblogaeth ehangach. Mae hyn am fod yr ymatebwyr wedi dewis ymateb, ac felly bod y bobl gyda diddordeb mewn pwnc yn fwy tebygol o ymateb i arolwg na’r rhai nad yw’n effeithio’n uniongyrchol arnynt. Mae set o dablau yn **Ychwanegiad 4** yn rhoi manylion nifer yr ymatebwyr fesul tref neu ganol pentref. Mae crynodeb ar gyfer pob canol tref yn **Ychwanegiad 5**.

***Bargod***

Cafwyd 16 ymateb dilys oddi wrth bobl ddywedodd mai **Bargod** oedd y canol tref fyddent yn ei ddefnyddio fwyaf aml. Ar fater darpariaeth toiledau yn gyffredinol yn ystod y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y ddarpariaeth yn ddigonol. Dywedodd yr un faint o bobl â hynny bod yn ddarpariaeth yn annigonol neu ddim ar gael. Teimlai’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol neu nad oedd toiledau ar gael yn gynnar yn y bore, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a thrwy’r amser ar y Sul a Gwyliau Banc.

O ran toiledau hygyrch, roedd yr un nifer ag ar gyfer toiledau’n gyffredinol yn teimlo bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud bod y ddarpariaeth ar gyfer pob diwrnod ac adeg arall yn annigonol, yn hytrach na dweud nad oedd toiledau hygyrch ar gael.

Ar fater cyfleusterau newid i blant ifanc, teimlai nifer fechan o ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar y Sul a Gwyliau Banc. Ar adegau eraill, o ddydd Llun i ddydd Gwener, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud bod y cyfleusterau’n ddigonol, ond o ran y Sul a Gwyliau Banc roeddent yn fwy tebygol o ddweud nad oedd dim cyfleusterau ar gael. Ar gyfer pob diwrnod ac adeg, dywedodd cyfran fwy o’r ymatebwyr na fyddent ddim yn defnyddio neu nad oeddent yn gwybod am gyfleusterau newid i blant ifanc.

Wedyn wrth drafod cyfleusterau newid i bobl gydag anableddau, teimlai nifer fechan o’r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd, Llun i Sadwrn yn unig. Dywedodd y mwyafrif helaeth iawn o’r ymatebwyr ar gyfer pob adeg arall a diwrnod arall bod y cyfleusterau’n annigonol neu ddim ar gael.

Gofynnwyd i’r ymatebwyr roi manylion unrhyw doiled a chyfleusterau newid o ansawdd da oedd ar gael. Ar gyfer Bargod, fe soniwyd am doiledau yn Llyfrgell Bargod, Neuadd Eglwys St. Gwladys, Riccis Café a’r orsaf bysiau, ond nodwyd mai dim ond pan oedd y mannau hynny’n agored roedd modd eu defnyddio.

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr roi manylion unrhyw doiled a chyfleusterau newid o ansawdd gwael. Cafwyd nifer o sylwadau am y toiledau yn yr orsaf bysiau – nid oeddent yn cael gofal da, nid oedd dim gwybodaeth am oriau agor a byddent yn cau am 5pm. Roedd nifer o sylwadau eraill yn ymwneud â nad oedd cyfleusterau ar gael. Mae rhestr lawn o sylwadau, fesul canol tref a phentref yn **Ychwanegiad 4**.

***Coed Duon***

Cafwyd 57 o ymatebion dilys oddi wrth bobl yn dweud mai'r canol tref fyddent yn ei ddefnyddio fwyaf aml oedd y **Coed Duon**, er bod y ffigwr hwn rywfaint yn wahanol ar gyfer gwahanol gwestiynau. O ran y ddarpariaeth doiledau'n gyffredinol, dywedodd llai nag un rhan o dair o'r ymatebwyr (17) bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ychydig yn llai na hanner bod y ddarpariaeth yn annigonol. Niferoedd bychan iawn o ymatebwyr ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar adegau eraill, o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu ar unrhyw adeg ar y Sul neu ar Wyliau Banc. Dywedodd bron hanner yr ymatebwyr (25) bod y ddarpariaeth yn annigonol ar y Sul neu ar Wyliau Banc yn ystod y dydd. Dywedodd niferoedd mawr o ymatebwyr na fyddent yn defnyddio toiledau hygyrch neu na wyddent am y ddarpariaeth yn gynnar yn y bore neu fin nos ar unrhyw ddiwrnod.

O ran toiledau hygyrch, dywedodd chwarter o'r ymatebwyr (14) bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Dywedodd cyfran fechan iawn fod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod pob cyfnod arall o amser ac ar y Sul a Gwyliau Banc. Dywedodd cyfran uwch bod y ddarpariaeth yn annigonol yn gynnar yn y bore ac yn ystod y dydd, Llun i Sadwrn, ac yn ystod y dydd, Sul a Gwyliau Banc. Eto dywedodd cyfran fawr na fyddent yn defnyddio toiledau hygyrch neu na wyddent am y ddarpariaeth yn ystod yr holl gyfnodau amser a dyddiau.

Ar gyfer cyfleusterau newid i blant ifanc, dywedodd niferoedd bychan iawn o ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar unrhyw adeg ac ar unrhyw ddiwrnod. Roedd yn fras un rhan o dair o'r ymatebwyr yn dweud bod y ddarpariaeth yn annigonol neu ddim ar gael ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod. Dywedodd tua 60% o'r ymatebwyr na fyddent yn defnyddio cyfleusterau newid i blant ifanc ar unrhyw adeg neu unrhyw ddiwrnod, neu na wyddent am y rheiny.

O ran y cyfleusterau newid i bobl gydag anableddau, dywedodd ychydig llai nag un rhan o bump (10) o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd, Llun i Sadwrn. Ar gyfer y cyfnodau amser a dyddiau eraill, roedd y nifer dywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol hyd yn oed yn llai na hynny. Dywedodd yn fras chwarter o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol ar draws yr holl gyfnodau amser a dyddiau. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr na fyddent yn defnyddio neu ddim yn gwybod am gyfleusterau newid i bobl gydag anableddau ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod.

Ar fater cyfleusterau toiled o ansawdd da yn y Coed Duon, fe soniodd nifer o'r ymatebwyr bod y rhai yn Asda'n arbennig o dda, ynghyd â'r rhai yng ngorsaf bysiau'r Coed Duon ac mewn llefydd manwerthu fel McDonald's, KFC, Wetherspoons a Costa. Cododd nifer o'r ymatebwyr y mater nad oeddent yn gallu neu eu bod yn anghyfforddus am ddefnyddio llefydd manwerthu os nad oeddent yn gwsmer yn prynu nwyddau.

Wrth ymateb am gyfleusterau toiled gwael yn y Coed Duon, tynnwyd sylw at y toiledau yn yr orsaf bysiau fel rhai lle'r oedd diffyg glendid yn arbennig o ddrwg ac nad oeddent yn cael eu cynnal yn dda. Roedd nifer o sylwadau hefyd yn ymwneud â bod toiledau'n gyffredinol yn annigonol ar gyfer pobl gydag anghenion anabledd. Fe soniodd nifer o ymatebwyr hefyd am brinder toiledau.

***Caerffili***

Cafwyd 60 o ymatebion dilys oddi wrth bobl ddywedodd mai'r canol tref fyddent yn ei ddefnyddio fwyaf aml oedd **Caerffili**, er bod y ffigwr hwn yn amrywio rywfaint fesul cwestiwn unigol. O ran toiledau'n gyffredinol, dywedodd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a dywedodd cyfran debyg bod y ddarpariaeth yn annigonol. Dywedodd tua un rhan o dair o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd ar y Sul a Gwyliau Banc, ond dywedodd cyfran ychydig bach yn uwch bod y ddarpariaeth yn annigonol. Dywedodd niferoedd bychan iawn bod y ddarpariaeth yn annigonol yn gynnar yn y bore neu fin nos ar unrhyw ddiwrnod. Er hynny, dywedodd tua hanner yr ymatebwyr na fyddent yn defnyddio neu ddim yn gwybod am gyfleusterau toiled ar yr adegau hynny, gyda'r mwyafrif o ymatebwyr eraill yn dweud bod y ddarpariaeth yn annigonol.

Dywedodd 20 o ymatebwyr bod y ddarpariaeth o doiledau hygyrch yn ddigonol yn ystod y dydd ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos. Fodd bynnag, teimlai 22 o ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol yn ystod y dydd, Llun i Sadwrn. Dim ond 3 o bobl oedd yn teimlo bod y toiledau'n annigonol yn ystod y dydd ar y Sul a Gwyliau Banc, ond dywedodd 17 o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod/ddim yn ymweld ar yr adeg honno. Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio/ddim yn gwybod am doiledau hygyrch yn gynnar yn y bore neu fin nos ar unrhyw ddiwrnod. Fodd bynnag, ymysg y rhai oedd yn ymweld ar yr adegau hynny roedd teimlad bod y ddarpariaeth o doiledau hygyrch yn ddigonol.

O ran cyfleusterau newid i blant ifanc, ychydig iawn o'r ymatebwyr ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod. Dywedodd tua chwarter yr ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol, ond dywedodd yn fras tua hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio neu ddim yn gwybod am gyfleusterau newid i blant ifanc ar unrhyw adeg o unrhyw ddiwrnod.

Ar fater cyfleusterau newid i bobl gydag anableddau, eto ychydig iawn o ymatebwyr ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar unrhyw gyfnod amser ar unrhyw ddiwrnod. Yn gyffredinol, dywedodd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol. Dywedodd tua thair rhan o bump o'r ymatebwyr na fyddent yn defnyddio neu ddim yn gwybod am gyfleusterau newid i bobl gydag anableddau ar unrhyw adeg o'r dydd.

Pan ofynnwyd am gyfleusterau toiled o ansawdd da yng Nghaerffili, roedd llawer o ymatebwyr naill ai'n sôn am Morrisons neu'r rhai yn y ganolfan ymwelwyr yn dilyn y gwaith adnewyddu yn ddiweddar. Fe soniodd dau o'r ymatebwyr am y toiledau yn yr orsaf bysus a'r rhai yn llyfrgell Caerffili, ond dywedodd nifer fechan o bobl eraill nad oedd unrhyw gyfleusterau ym mhen deheuol y dref.

Pan ofynnwyd am gyfleusterau toiled gwael yng Nghaerffili, dywedodd ymatebwyr bod diffyg glendid yn y toiledau ger yr orsaf bysus, eu bod yn cael eu cynnal yn wael a ddim yn lle braf i'w ddefnyddio. Fe soniwyd hefyd am y toiledau ym Mharc Morgan Jones fel rhai gwael. Fe gododd rhai ymatebwyr hefyd fater mynediad ar gyfer pobl gydag anableddau.

***Pont-y-cymer***

Cafwyd 7 ymateb dilys oddi wrth ymatebwyr yn dweud mai'r canol pentref fyddent yn ei ddefnyddio amlaf oedd **Pont-y-cymer**. O ran toiledau'n gyffredinol, dywedodd y mwyafrif helaeth iawn nad oedd dim ar gael ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod. Dim ond un neu ddau o'r ymatebwyr ddywedodd bod y cyfleusterau'n ddigonol yn ystod y dydd ar unrhyw ddiwrnod. Dywedodd nifer tebyg bod y cyfleusterau'n annigonol yn ystod y dydd ar unrhyw ddiwrnod neu yn ystod min nos, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ar fater toiledau hygyrch, eto dywedodd y mwyafrif helaeth iawn nad oedd dim cyfleusterau ar gael. Dim ond un ymatebydd ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn gynnar yn y bore ar y Sul a Gwyliau Banc, yn ystod yr holl gyfnodau amser ac ar bob diwrnod. Hefyd, dywedodd un neu ddau o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol yn gynnar yn y bore ac yn ystod y dydd ar unrhyw ddiwrnod.

Gan gyfeirio at y ddarpariaeth o gyfleusterau newid i blant ifanc, dywedodd y mwyafrif helaeth nad oedd dim ar gael. Dywedodd dau ymatebydd bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn gynnar yn y bore o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac nid oedd un o'r ymatebwyr yn dweud bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod unrhyw adeg arall o unrhyw ddiwrnod. Dywedodd tri o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Ar gyfer y ddarpariaeth o gyfleusterau newid i bobl gydag anableddau, ac nid oedd un o'r ymatebwyr yn dweud bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar bob adeg ar bob diwrnod. Ond dywedodd un ymatebydd bod y ddarpariaeth yn annigonol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac nid oedd unrhyw ymatebion ar gyfer cyfnodau amser eraill a dyddiau eraill. Eto, dywedodd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gael.

Roedd yr unig sylwadau a gafwyd ar y cwestiwn am gyfleusterau da neu wael yn ymwneud â Pharc Waunfawr. Dywedodd dau o'r ymatebwyr eu bod wedi ceisio'u defnyddio ond na fyddent byth yn agored.

***Nelson***

Cafwyd 27 ymateb dilys oddi wrth ymatebwyr ddywedodd mai'r canol pentref fyddent yn ei ddefnyddio amlaf oedd **Nelson**, er bod y ffigwr hwn yn newid ychydig bach ar draws y cwestiynau unigol. Ar fater y ddarpariaeth doiledau yn gyffredinol, dywedodd dros bedwar allan o bump o'r ymatebwyr nad oedd dim ar gael ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod. Ychydig iawn o ymatebwyr (un neu ddau) ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod, gyda dwbl y nifer hwnnw'n dweud bod y ddarpariaeth yn annigonol.

O ran y ddarpariaeth o doiledau hygyrch, eto dywedodd dros bedwar allan o bump o'r ymatebwyr nad oedd dim cyfleusterau ar gael. Dim ond un ymatebydd ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Ni chafwyd unrhyw

ymatebion cadarnhaol eraill ar gyfer unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod arall, nac ar gyfer yn ystod y dydd ar y Sul neu ar Wyliau Banc.

Wrth sôn am gyfleusterau newid i blant ifanc, eto dywedodd pedwar allan o bump o’r ymatebwyr nad oedd dim darpariaeth ar gael. Ychydig iawn o ymatebwyr (1) ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol o ddydd Llun i ddydd Sadwrn yn ystod y dydd. Dywedodd nifer fechan o ymatebwyr (4) nad oeddent yn defnyddio neu ddim yn gwybod am gyfleusterau newid i blant ifanc.

O ran cyfleusterau newid i bobl gydag anableddau, rhoddwyd yr un atebion ag ar gyfer cyfleusterau newid i blant ifanc, heblaw am fod nifer yr ymatebwyr ddywedodd nad oeddent yn defnyddio neu ddim yn gwybod am y ddarpariaeth yn disgyn i 3 ymatebydd.

Gofynnwyd am gyfleusterau toiled da neu wael yn Nelson, a dywedodd gryn nifer nad oedd dim toiledau ar gael. Fe soniodd dau o’r ymatebwyr am y rhai yn y llyfrgell ond gan ddweud mai dim ond yn ystod oriau agor roedd y rheiny ar gael. Fe soniodd dau o’r ymatebwyr am doiledau ar gael mewn tafarnau a chaffis lleol. Nodwyd bod Nelson yn gyfnewidfa ar gyfer gwasanaethau i Ferthyr Tudful, Pontypridd, Bargod a Chaerffili, ond nad oes unrhyw doiledau i bobl eu defnyddio.

***Trecelyn***

Cafwyd 23 ymateb dilys oddi wrth ymatebwyr ddywedodd mai’r canol tref fyddent yn ei ddefnyddio fwyaf aml oedd **Trecelyn**, er bod y ffigwr hwn yn amrywio rywfaint o un cwestiwn unigol i’r llall. Dywedodd nifer fechan o ymatebwyr (3) bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd a min nos o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Dywedodd ddwywaith gymaint o ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac ar y Sul a Gwyliau Banc. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr nad oedd unrhyw doiledau ar gael.

Ar fater y ddarpariaeth o doiledau hygyrch, dywedodd tua un rhan o bump o’r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar unrhyw adeg ar y Sul a Gwyliau Banc. Ond dywedodd nifer llai o lawer bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar unrhyw adeg o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Roedd hanner yr ymatebwyr, yn fras, yn dweud nad oedd unrhyw doiledau ar gael.

Ar gyfer cyfleusterau newid i blant ifanc, dywedodd tua un rhan o bump o’r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol gydol yr amser bob dydd. Dywedodd tua dwy ran o bump o’r ymatebwyr nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gael ar unrhyw adeg o unrhyw ddiwrnod.

O ran y cyfleusterau newid i bobl gydag anableddau, dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar gael ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod.

Pan ofynnwyd am ddarpariaeth dda neu wael o gyfleusterau toiled yn Nhrecelyn, fe soniodd nifer fechan o’r ymatebwyr am doiled o ansawdd da yn y Llyfrgell. Dywedodd nifer o’r ymatebwyr nad oedd unrhyw doiledau cyhoeddus ar gael yn Nhrecelyn, a bod y rhai yn McDonald’s ayyb. yn rhy bell o ganol y dref.

***Rhymni***

Dim ond 7 o ymatebion dilys gafwyd oddi wrth ymatebwyr ddywedodd mai'r canol tref byddent hwy'n ei ddefnyddio fwyaf aml oedd **Rhymni**, er bod y ffigwr hwn yn amrywio rywfaint ymysg y gwahanol gwestiynau. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn dweud bod y cyfleusterau toiled yn gyffredinol yn ddigonol ar unrhyw adeg a phob diwrnod, a dywedodd un ymatebydd bod y ddarpariaeth yn annigonol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr nad oedd dim toiledau ar gael.

O ran y ddarpariaeth o doiledau hygyrch, cyfleusterau newid i blant ifanc a'r cyfleusterau ar gyfer pobl gydag anableddau, dywedodd bron iawn bob un o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gael. Cafodd hynny ei atgyfnerthu gan y sylwadau ddaeth mewn perthynas â'r cwestiwn am y ddarpariaeth o gyfleusterau toiled o ansawdd da a gwael.

***Rhisga***

Cafwyd 18 o ymatebion dilys oddi wrth bobl ddywedodd mai'r canol tref fyddent hwy'n ei ddefnyddio fwyaf aml oedd **Rhisga**, er bod y ffigwr hwn yn amrywio ychydig o un cwestiwn i'r llall. O ran y ddarpariaeth o doiledau yn gyffredinol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, dywedodd ychydig o dan dri chwarter o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol. Dywedodd ychydig o dan un rhan o dair o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd ar y Sul a Gwyliau Banc. Dywedodd ychydig o dan un rhan o dair o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw doiledau ar gael yn ystod min nos ar unrhyw ddiwrnod.

Ar fater toiledau hygyrch, dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr bod y cyfleusterau'n ddigonol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Ond dim ond un rhan o bump ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd ar y Sul a Gwyliau Banc. Dywedodd tua chwarter o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol yn gynnar yn y bore ac yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

O ran y ddarpariaeth o gyfleusterau newid i blant ifanc, a doedd bron ddim o'r ymatebwyr yn dweud bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar bob adeg o bob diwrnod. Dywedodd nifer fechan o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol, gan dynnu sylw'n benodol at yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr na fyddent yn defnyddio neu nad oeddent ddim yn gwybod am gyfleusterau newid i blant ifanc.

Mewn perthynas â'r ddarpariaeth o gyfleusterau newid i bobl gydag anableddau, dim ond un o'r ymatebwyr ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar bob adeg o bob diwrnod. Dywedodd ychydig dros un rhan o bump o'r ymatebwyr nad oedd dim darpariaeth ar gael. Eto, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio neu ddim yn gwybod am gyfleusterau newid i bobl gydag anableddau.

Pan ofynnwyd am ddarpariaeth dda a gwael o doiledau yn Rhisga, fe soniodd nifer fechan o'r ymatebwyr am y rhai ym Mharc Rhisga a'r Llyfrgell fel rhai arbennig o dda. Fodd bynnag, fe soniodd nifer fechan o ymatebwyr hefyd bod angen uwchraddio'r toiledau yn y parc.

***Ystrad Mynach***

Cafwyd 22 o ymatebion dilys oddi wrth ymatebwyr ddywedodd mai’r canol tref fyddent hwy’n ei ddefnyddio fwyaf aml oedd **Ystrad Mynach**, er bod y ffigwr hwn yn newid rywfaint rhwng un cwestiwn a’r llall. Dywedodd ychydig dros dri chwarter o’r ymatebwyr bod y ddarpariaeth toiledau yn gyffredinol yn ddigonol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Ond roedd hyn yn gostwng i tua un rhan o chwech o’r ymatebwyr ar gyfer yn ystod y dydd ar y Sul a Gwyliau Banc. Dywedodd ychydig dros chwarter o’r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol ar bob adeg o bob diwrnod. Dywedodd cyfran uwch o’r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod am, neu ddim yn defnyddio, darpariaeth ar unrhyw adeg ar y Sul a Gwyliau Banc. Mae’n debyg bod hynny’n ddangos eu bod yn fwy tebygol o ymweld â’r cyfleusterau ar ddyddiau’r wythnos neu’r Sadwrn.

O ran y ddarpariaeth o doiledau hygyrch, dywedodd tua un rhan o dair o’r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn ddigonol yn ystod y dydd, Llun i Sadwrn, gyda nifer fechan iawn o’r ymatebwyr yn dweud hynny ar gyfer adegau eraill a dyddiau eraill. Dywedodd tua un rhan o dair o’r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn annigonol ar bob adeg a phob diwrnod. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr ar gyfer pob categori heblaw am yn ystod y dydd, Llun i Sadwrn, na fyddent yn defnyddio’r ddarpariaeth o doiledau hygyrch neu nad oeddent yn gwybod amdani.

Mewn perthynas â’r ddarpariaeth o gyfleusterau newid i blant ifanc, dim ond un o’r ymatebwyr ddywedodd bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar bob adeg o bob diwrnod. Yn gyffredinol, dywedodd tua dwy ran o dair o’r ymatebwyr nad fyddent yn ymweld â chyfleusterau newid i blant ifanc neu na wyddent amdanynt.

Mewn perthynas â’r ddarpariaeth o gyfleusterau newid i bobl gydag anableddau, nid oedd yr un o’r ymatebwyr yn dweud bod y ddarpariaeth yn ddigonol. Dywedodd tua thri chwarter o’r ymatebwyr na fyddent yn defnyddio cyfleusterau newid i bobl gydag anableddau neu na wyddent amdanynt.

Pan ofynnwyd am ddarpariaeth toiledau o ansawdd da neu wael yn Ystrad Mynach, nodwyd bod darpariaeth o ansawdd da yn Tesco, Llyfrgell Ystrad Mynach a’r rhai wrth y prif safle bws. Yn ôl rhai o’r ymatebwyr, hyd yn oed lle'r oedd darpariaeth o doiledau, nid oeddent yn agored yn gynnar yn y bore nac yn hwyr min nos. Dywedodd un ymatebydd bod y rhai yn yr orsaf bysiau’n warthus ac nad oeddent yn teimlo’n ddiogel i’w defnyddio.

## Atyniadau a Pharciau

Gan fod nifer fawr o atyniadau a pharciau yn y fwrdeistref sirol, gofynnwyd i’r ymatebwyr ysgrifennu enw’r parc neu atyniad byddent yn ymweld â hwy fwyaf aml. Am y rheswm hwn, roedd nifer yr ymatebion ar gyfer atyniadau unigol yn isel ac nid yw’n ystyrlon gwneud dadansoddiad ystadegol o’r data.

Mae’r themâu allweddol a ddatblygodd o’r sylwadau yn y rhan ar atyniadau a pharciau wedi’u rhestru isod. Lle cafwyd nifer o sylwadau ar atyniad penodol, tynnwyd sylw at y rheiny.
Yn **Ychwanegiad 6** mae crynodeb llawn o’r sylwadau ar gyfer yr atyniadau a pharciau y cyfeiriwyd atynt.

- Nid oes cyfleusterau mewn llawer o'r parciau llai
- Safon glendid mewn parciau yn gyffredinol yn wael
- **Canolfan Ymwelwyr Caerffili** - fel y nodwyd o dan y sylwadau ar gyfer canol tref Caerffili uchod, mae pobl o'r farn bod y toiledau yng Nghanolfan Ymwelwyr Caerffili o ansawdd da, ac wedi cael eu hadnewyddu yn ddiweddar.
- **Castell Caerffili** – sylwadau nad oes dim toiled i ddefnyddwyr cadair olwyn neu rai addas ar gyfer coets baban a bod angen uwchraddio'r cyfleusterau
- **Parc Cwm Darran** – y cyfleusterau'n iawn yn y ganolfan ymwelwyr ond yr oriau agor yn gyfyngedig a thymhorol
- **Canolfan Ymwelwyr Coedwig Cwmcarn** - credir bod y rhain o ansawdd uchel ond, fel gyda pharciau gwledig eraill, wedi'u cyfyngu gan amseroedd agor y ganolfan ymwelwyr
- **Parc Morgan Jones** - credir mai safon wael iawn o lendid sydd i'r toiledau yn y parc, ac nad yw'n hawdd cael mynediad mewn cadair olwyn. Mae toiledau yng Nghaffi'r Hen Lyfrgell wrth ymyl y parc, a chredir bod y rheiny'n lanach. Oriau agor cyfyngedig sydd gan y parc a Chaffi'r Hen Lyfrgell.
- **Parc Penallta** – dywedodd llawer nad oeddent yn ymwybodol o'r toiledau ym Mharc Penallta. Awgrymodd eraill bod toiled yn y Ganolfan Addysg ond nad oedd bob tro yn agored a bod angen allwedd radar i gael mynediad i'r toiled compostio.
- **Pwll Pen-y-Fan** – ystyriwyd bod y rhain o ansawdd gwael o ran gwaith cynnal a glendid, gydag amseroedd agor cyfyngedig (tymhorol)
- **Parc Waunfawr** – Oriau agor cyfyngedig
- **Parc y Wern, Nelson** – Nid oes toiledau ym Mharc y Wern
- **Parc Ystrad Mynach** - Pobl yn credu nad oeddent yn lân a bod y gwaith cynnal yn wael. Roedd hefyd gyfeiriad at ddefnydd amhriodol o'r cyfleusterau gan rai.

## Dywedwch fwy wrthym

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr feddwl am y fwrdeistref sirol yn ehangach na'r dref/pentref neu atyniad/parc y byddent hwy'n eu defnyddio fwyaf aml. Rhoddwyd cyfres o ddatganiadau i'r ymatebwyr, a gofyn a oeddent yn 'cytuno'n gryf', cytuno', anghytuno', 'anghytuno'n gryf' neu 'ddim yn gwybod' ar gyfer pob un o'r datganiadau. Mae crynodeb isod o'r datganiadau unigol a'r ymatebion iddynt:

### *Dim digon o gyfleusterau (n=345)*

87% o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o gyfleusterau ar gael.

### *Nid yw'r cyfleusterau mewn mannau cyfleus (n=328)*

Ychydig dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad hwn.

### *Nid yw lleoliad y cyfleusterau'n teimlo'n ddiogel (n=319)*

Ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad hwn, gyda dros chwarter yn dweud eu bod yn anghytuno.

### *Dim digon o wybodaeth am le mae cyfleusterau wedi'u lleoli (n=336)*

91% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad hwn.

***Mae prinder cyfleusterau wedi fy atal rhag ymweld â rhai lleoliadau (n=333)***

Bron dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod prinder cyfleusterau wedi'u hatal hwy rhag ymweld â rhai lleoliadau.

***Cyfleusterau ddim yn agored ar yr adegau rwyf fi eu hangen (n=323)***

65% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad hwn.

***Mae glendid y cyfleusterau yn gyffredinol yn dda (n=326)***

Ychydig llai na hanner yr ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod glendid toiledau yn gyffredinol yn dda. Roedd dros un rhan o dair o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda'r datganiad hwn.


***Dylai fod toiledau ar gael i'w defnyddio heb fod angen talu (n=337)***

88% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y dylai toiledau fod ar gael i'w defnyddio heb fod angen talu. Er y teimlai cyfran fawr y dylai toiledau fod ar gael yn ddi-dâl, roedd nifer o sylwadau'n cefnogi codi tâl bychan os oedd hynny'n golygu bod toiledau'n lanach ac yn fwy hygyrch.

***Ni fyddaf yn hoffi defnyddio toiledau mewn siopau neu fwytai am fy mod yn teimlo bod angen i mi brynu rhywbeth (n=336)***

83% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad hwn.

Mae'r siart yn tynnu sylw at y ganran o'r ymatebwyr oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda phob un o'r datganiadau.



Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr roi manylion o unrhyw faterion penodol gyda'r ddarpariaeth o doiledau neu gyfleusterau newid ym mwrdeistref sirol Caerffili. Mae crynodeb llawn o'r ymatebion yn **Ychwanegiad 7**. Gellir gweld isod grynodeb o'r prif themâu ddaeth yn amlwg oddi wrth y sylwadau:

- Nid oes cyfleusterau newid gyda theclyn codi ar gyfer unigolion gydag anableddau
- Prinder cyfleusterau toiled mewn parciau cyhoeddus, a lle mae'r rheiny ar gael mae eu hansawdd a'r oriau agor yn drafferthus
- Rhy ychydig o gyfleusterau toiled cyhoeddus ar gael, a lle mae toiledau cyhoeddus mae'r rheiny yn gyffredinol o safon wael, heblaw am ychydig o eithriadau i hynny
- Angen bod mwy o wybodaeth ar gael am le mae toiledau i'r cyhoedd a'u horiau agor
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai fod toiledau ar gael i'w defnyddio'n ddi-dâl.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth fyddai orau ganddynt fel ffordd o gael gwybod lle mae'r cyfleusterau toiled a chyfleusterau newid agosaf pan fyddant hwy allan. Dywedodd ychydig dros hanner mai'r dewis gorau ganddynt fyddai sticer neu boster yn ffenestr adeilad lle mae cyfleusterau ar gael. Roedd ychydig dros chwarter ohonynt yn rhoi eu dewis cyntaf fel app ar eu ffôn symudol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd eu hymateb i'r arolwg wedi cael ei ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gan yr amrediad o nodweddion wedi'u diogelu sydd wedi'u henwi yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys:

- Ychydig iawn o gyfleusterau priodol, glân a diogel sydd ar gael ar hyn o bryd i'r rhai gydag anableddau, ac yn benodol,
    - prinder toiledau hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl gyda phlant ifanc mewn coets baban neu bram
    - prinder cyfleusterau i bobl gydag amhariad ar eu golwg
    - prinder cyfleusterau newid gyda theclyn codi
    - prinder cyfleusterau toiled i bobl gyda chyflyrau fel afiechyd Crohn
- Prinder gwybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael
- Roedd nifer o sylwadau'n ymwneud â'r angen i sicrhau ystyried rhyw pobl wrth ddarparu cyfleusterau h.y. anghenion pobl trawsrywiol, darparu cyfleusterau ar wahân er mwyn caniatáu preifatrwydd a bod cyfleusterau newid babanod ar gael i'r ddau riant.

Mae crynodeb llawn o'r sylwadau yn **Ychwanegiad 7**.